**Beirniadaeth Cystadleuaeth 314**

**Bl.12 a 13: Cyfansoddiad lleisiol ar eiriau Cymraeg o ddewis y cystadleuydd**

**Beirniad: Beti Rhys**

**Glan Nant - Seren Fach**

Cyflwynodd Glan Nant garol Nadolig ar eiriau Seren Wen gan Tudur Dylan. Mae ffurf pennill a chytgan yn rhoi strwythur cadarn i'r gân ac mae'r wythbar canol mwy mentrus o ran trawsgywieiriadau yn gyferbyniad hyfryd ac gweithio'n dda. Hoffais yn arbennig trawsgyweiriad i gywair uwch sy'n ein harwain at y gytgan olaf. Ymysg yr uchafbwyntiau mae cyfalaw y feiolin yn yr ail bennil ymlaen, ac chlywn gyfieliant llifeiriog rhan y piano yn cynnal y diddordeb. Ar brydiau, roedd ambell i naid annisgwyl o octef yn yr alaw a hynny ar hanner cwaferi olaf y bar yn gwnued yr alaw braidd yn heglog i'w chanu. Wedi dweud hynny, dyma gyfanwaith diddorol. Diolch am gystadlu a dalier ati i gyfansoddi.

**Telyn Enfys**

Gosodiad o eiriau 'Tir y Cewri' sydd gan Telyn Enfys. Cyfansoddiad anthemig i biano a chôr pedwar llais sydd yma a chawn ni mo'n siomi gan fod holl dechnegau cyfansoddi dyrchafol ar waith gan y cyfansoddwr hwn. Mae'r alawon yn gofiadwy a'r gosodiad o'r geiriau yn gwbl addas gydag ambell rhythm trawsacennog bwriadus yn rhoi blas cyfoes i'r trefniant. Hyfryd. Ar adegau mae'r cyfeiliant piano yn syml, dro arall mae'n fyrlymus. Un o rinweddau y darn yw'r gweadau amrywiol fel a gawn yn y rhan olaf pan ddaw cyfeiliant y piano i ben yn sydyn a chlywn gyfoeth yr ysgrifennu ar gyfer lleisiau SATB yn ddigyfeiliant. Mae'r trawsgywieirad a'r llawnder sain yn y rhan olaf yn felysach o'i herwydd a cheir uchafbwynt hyfryd sy'n arwain at ddiweddglo tawel, myfyriol i gloi y gân. Llongyfarchiadau a hir y parhaed y cyfansoddi!